# 2.3.5 Safonau ar gyfer mesuriadau 4

## Termau allweddol

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Llinell ganol | Term a ddefnyddir i ddiffinio rhan ganolog adeiledd yw'r llinell ganol. |
| Cylchfesur allanol | Perimedr allanol adeiledd yw cylchfesur allanol yr adeiledd. |
| Cylchfesur mewnol | Perimedr mewnol yr adeiledd yw'r cylchfesur mewnol. |

## Cyfrifiadau llinell ganol

Fel arfer, caiff y term llinell ganol ond ei ddefnyddio wrth gyfeirio at:

- y tanadeiledd (sylfeini)
- y waliau allanol.

Mae'r diagram gyferbyn yn dangos y cynllun ar gyfer sylfeini adeilad petryal. Stribedi 600mm o led yw'r sylfeini.

I gyfrifo mesuriad y llinell ganol, bydd angen i ni ystyried y manylyn cornel a fydd yn ymestyn y cylchfesur mewnol i'r llinell ganol ddwywaith ym mhob cornel fel y gwelir yn y diagram.

Felly, bydd y llinell ganol:

- 2 × yr hyd
- 2 × y lled
- 8 × hanner lled y ffos.

Yn yr achos hwn, mesuriad y llinell ganol fydd:

(2 × 10,000) + (2 × 2,000) + (8 × (600/2))

